

CYFARFOD BLYNYDDOL - CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

A gynhaliwyd ar Nos Lun 18.05.2026 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cyng. Amy Evans (Cadeirydd), Cyng. Delme Phillips, Cyng. Elfed Davies, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.**Clerc:** Enid Davies**Cyfieithydd:** Hefin Jones**Ymddiheuriadau:** Cllr. Eifion Jones

1	<p><u>Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 19 Mai 2025</u></p> <p>Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 19.05.2025 gan y Cadeirydd. Cynigiwyd gan y Cyng. Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Delme Phillips.</p>
2	<p><u>Materion yn codi o'r cofnodion.</u></p> <p>Dim</p>
3	<p><u>Enwebu Cadeirydd am y flwyddyn 2026-2027</u></p> <p>Roedd un enwebiad, sef y Cynghorydd Amy Evans a gynigiwyd gan y Cyng. E. Davies ac a eiliwyd gan y Cyng. B. Davies. Soniodd y Cyng. J.E. fod swydd y Cadeirydd yn cael ei chylchdroi'n flynyddol o'r blaen i sicrhau nad oedd person yn cael ei adael yn y swydd am gyfnod amhenodol. Cytunodd y Cyng. Amy Evans I dderbyn ar y sail bod pob penderfyniad a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu'n brydlon gan staff heb oedi diangen, gan sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac effeithlonrwydd. Yn dilyn pleidlais fwyafrifol, penderfynwyd penodi'r Cynghorydd Amy Evans yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed am y flwyddyn 2026/27.</p>
4	<p><u>Enwebu Is-Cadeirydd 2026-2027</u></p> <p>Roedd un enwebiad, cynigiwyd y Cyng. Delme Phillips gan y Cyng. B. Davies ac eiliwyd gan y Cyng. A.Jones. Penderfynwyd penodi Delme Phillips yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2026/27.</p>
5..	<p><u>Enwebu Aelodau i Bwyllgorau Arbennig:</u> Penderfynodd y Cyngor fod y Cyngor yn cael ei gynrychioli ar bwyllgorau arbennig fel y canlynol:</p> <p>a. <u>Pwyllgor Henoed -</u> Cyng. Julian Evans</p> <p>b. <u>Corff Llywodraethol Federasiwn Ysgolion Cynwyl Elfed a Llanpumsaint -</u> Cyng. Delme Phillips.</p> <p>c. <u>Un Llais Cymru Pwyllgor Ardal -</u> Cyng. Amy Evans (Cadeirydd) a'r Cyng. Bryan Davies.</p> <p>d. <u>Pwyllgor Sirol Un Llais Cymru -</u> Cyng. Amy Evans a'r Cyng. Bryan Davies</p> <p>e. <u>Pwyllgor Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed -</u> Penderfynwyd y dylai holl aelodau'r Cyngor gynrychioli'r Cyngor ar Bwyllgor Neuadd Cynwyl Elfed.</p> <p>f. <u>Cae Chwarae Bro Elfed Playing Field -</u> Cyng. Robin Bowen, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Amy Evans.</p> <p>g. <u>Elusen Unedig Cynwyl Elfed -</u> Cyng. Eifion Jones, Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Robin Bowen.</p>

<p>6 a.</p> <p>b.</p> <p>c</p> <p>d.</p>	<p><u>Trafod a chymeradwyo Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn 2024/2025</u> Penderfynwyd penodi H. Doody o Gyfrifwyr Bevan&Buckland yn Archwilydd Mewnol ar gyfer y flwyddyn 2026/27. Cost Archwilio Mewnol 2026/27 £340 + TAW.</p> <p><u>Rheoliadau Sefydlog</u> - Penderfynodd y Cyngor derbyn Model Rheolau Sefydlog 2023 (Cymru) ar gyfer Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed am y flwyddyn 2026/27.</p> <p><u>Rheoliadau Ariannol</u> - Penderfynodd y Cyngor dderbyn Model Rheoliadau Ariannol (2025) , am y flwyddyn 2026/27.</p> <p><u>Asesiad Risg Ariannol a Rheolaethol</u> Roedd y Clerc wedi cynnal Asesiad Risg Ariannol a Rheolaethol ar gyfer y flwyddyn 2026/2027 . Y prif risg ariannol a nodwyd yw'r Cyfleusterau Cyhoeddus o hyd, er bod anfonebau wedi disgyn i batrwm rheolaidd erbyn diwedd 2025/26; mae bloc y cyfleusterau cyhoeddus yng Ngynwyl Elfed yn cyflwyno rhwymedigaeth ariannol fawr. Mae costau gweithredol, treuliau cyfleustodau cynyddol, nwyddau traul a glanhau yn parhau. Mae'r Cyngor fel gwithredwyr yn atebol am gydymffurfiaeth statudol ac lechyd a Diogelwch. Cymeradwydd y Cyngor yr Asesiad Risg Ariannol a Rheoli ar gyfer 2026/27.</p>
<p>7</p>	<p><u>Cyflog y Clerc:</u> Penderfynodd y Cyngor benodi Enid Davies yn Glerc a Swyddog Cyfrifol ar gyfer y flwyddyn 2026/27 hyd nes y penodir clerc newydd. Gofynnwyd i'r Clerc adael yr ystafell tra byddai'r Cyngor yn trafod ei hadolygiad cyflog blynyddol. Nodwyd yng Nghofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y flwyddyn flaenorol y byddai cyflog y Clerc yn cael ei osod ar £13.50/awr ar gyfer y flwyddyn 2025-2026. Gwnaeth y Cadeirydd rai cyfrifiadau ar y taliadau Cyflog misol i'r Clerc a chanfod bod diffyg sylweddol yn y swm a dalwyd iddi. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cael y diffyg yn llawn, ac yna byddai'r cyflog yn parhau ar £13.50 yn y flwyddyn ariannol hon. Gofynnwyd i'r Clerc ddod â'r cyfrifiadau cyflog i gwmpasu'r flwyddyn ariannol flaenorol ymlaen i gyfarfod nesaf y Cyngor, lle byddai'r cynghorwyr yn eu gwirio, a byddai'r ffigur sy'n weddill yn cael ei gytuno a'i dalu'n uniongyrchol i'r Clerc.'</p>
<p>8</p>	<p><u>Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol</u> Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cyngor barhau i gynnal cyfarfodydd am 7.30 ar y trydydd dydd Llun o bob mis. Nid yw'r Cyngor yn cwrdd ym Mis Awst. Bydd y Cyngor yn penderfyni yng nghyfarfod mis Tachwedd a fydd yn cyfarfod ym mis Rhagfyr ai peidio. Bydd y Clerc i gysylltu gyda'r Cadeirydd â'r Is-Gadeirydd os bydd unrhyw faterion brys yn codi.</p>
<p>9</p>	<p><u>Unrhyw Fusnes Arall.</u> Cynigiodd y Cyng. E.Davies fod y Cyngor yn estyn diolch i Mr. Hefin Jones am y gwasanaeth cyfieithu proffesiynol y mae'n ei ddarparu. Cytunodd y Cyngor yn unfrydol.</p>

Daeth y cyfarfod i ben am 8:20 y.h. Mae cyfarfod blynyddol y flwyddyn nesaf y cyngor i'w gynnal ar **17.05.2027 am 7:00 y.h.**

Llofnod.....Dyddiad.....